# Adroddiad Blynyddol a Chrynodeb Ariannol 2013/2014

Children in Wales
Plant yng Nghymru



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 2 |
| Datblygu a chynnal rhwydweithiau cryf | 3 |
| Cynhyrchu a lledaenu gwybodaeth | 5 |
| Polisi, datblygu ymarfer ac ymchwil | 7 |
| Ymgynghori | 9 |
| Cynrychiolaeth | 10 |
| Cynyddu ymwybyddiaeth gyhoeddus a phroffesiynol | 12 |
| Cynadleddau a digwyddiadau | 13 |
| Hyfforddiant | 14 |
| Prosiect Cynnwys Teuluoedd | 16 |
| Gyda’n Gilydd dros Hawliau (T4R) | 17 |
| Llywodraethiant | 18 |
| Aelodau Plant yng Nghymru | 19 |
| Crynodeb ariannol | 21 |




# Cyflwyniad

Plant yng Nghymru yw'r sefydliad ymbarél cenedlaethol ar gyfer sefydliadau gwirfoddol, statudol a phroffesiynol ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru. Ein nod yw hybu buddiannau'r grwpiau hynny a chymryd camau i ddiwallu eu hanghenion.

Er mwyn gwneud hyn rydym yn:

- Cyfrannu at wireddu Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru
- Ymladd dros wasanaethau cynaliadwy o ansawdd a chyfran deg i bob plentyn a pherson ifanc
- Sicrhau sylw arbennig a thriniaeth ar gyfer plant mewn angen a'r rhai sydd ar y cyrion
- Sicrhau bod llais gan blant a phobl ifanc

Corff o aelodau yw Plant yng Nghymru, ac mae'n darparu ystod o wasanaethau a luniwyd i hysbysu'r aelodau yn barhaus ynghylch datblygiadau newydd, ac i hwyluso ymatebion ar y cyd. Rydym yn elusen gofrestredig ac yn sefydliad annibynnol, anllywodraethol.

Mae Plant yng Nghymru yn gweithio i gyflawni'r amcanion canlynol:

- Cynnal a datblygu rhwydweithiau cryf
- Cynhyrchu a lledaenu gwybodaeth
- Cynrychioli'r aelodau ac ymgynghori â nhw
- Datblygu polisi, arfer ac ymchwil
- Cynyddu ymwybyddiaeth gyhoeddus, wleidyddol a phroffesiynol
- Cefnogi mentrau newydd a rhai sydd eisoes yn bodoli

Mae'r adroddiad hwn yn esbonio sut y cyflawnwyd yr amcanion hynny yn ystod 2013/14.



# Datblygu a chynnal rhwydweithiau cryf

***"Rwy'n defnyddio'r bwletinau i sicrhau bod yr wybodaeth rydym ni'n ei rhoi i deuluoedd yn gywir ac yn gyfredol. Maen nhw hefyd wedi darparu dolenni hanfodol â phrosiectau eraill lle rydym ni wedi cydweithio."*** **Aelod o Rwydwaith CHAPPIE**

Mae Plant yng Nghymru yn hwyluso ystod eang o rwydweithiau sy'n dod â gweithwyr proffesiynol at ei gilydd i drafod materion polisi ac arfer. Maent yn hanfodol i'n gwaith gan eu bod yn ein helpu i ddeall y materion sy'n destun pryder sy'n effeithio ar sefydliadau ar draws y sector plant. Trwy'r rhwydweithiau hyn gallwn roi gwybod i'r aelodau am ddatblygiadau newydd, rhannu arfer da a datblygu persbectif priodol ar ddatblygiadau polisi.



**Mae'r Grŵp Cyfnewid Ymarfer Eiriolaeth** yn gyfle i ymarferwyr yn y maes rannu ymarfer, profiad a gwybodaeth am eiriolaeth a meysydd cysylltiedig. Mae'n cyfrannu at wella datblygiad ymarfer eiriolaeth ledled Cymru.

**Mae Rhwydwaith Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan** yn cyfrannu at ddatblygu eiriolaeth effeithiol yng Nghymru ac yn ei gefnogi. Ei nod yw hyrwyddo gwaith partneriaeth a strategaethau datblygiadol rhwng sefydliadau. Mae'n hwyluso datrys problemau ac yn canfod atebion i wrthdaro buddiant posibl.

**Mae'r Rhwydwaith Cyfnewid Ymarfer a Gwybodaeth am Atal Damweiniau Plant (CHAPPIE)** yn ceisio hyrwyddo'r gwaith o atal damweiniau ac anafiadau anfwriadol i blant a phobl ifanc ledled Cymru. Mae'n cefnogi ymarferwyr, rheolwyr a llunwyr polisi yn eu rolau cysylltiedig ag atal anafiadau.

**Mae'r Grŵp Cyfnewid Ymarfer Plant a Theuluoedd** yn cwrdd yn rheolaidd yn Ne Cymru i alluogi ymarferwyr i rannu arbenigedd a gwybodaeth am amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â hawliau plant.

**Mae'r Grŵp Cyfnewid Ymarfer ar Hawliau Plant a Phobl Ifanc** yn galluogi ymarferwyr yng Ngogledd Cymru i gwrdd yn rheolaidd er mwyn rhannu arbenigedd a gwybodaeth am amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â hawliau plant.

**Sefydlwyd Grŵp Atal Ymddygiad Bwlio Plant yng Nghymru** i sicrhau bod polisïau oedd yn ymwneud â'r agenda gwrthfwlio, mewn ysgolion a chymunedau, yn cael eu gwerthuso a'u cydlynu. Mae'r grŵp yn cwrdd i greu llais cryf er mwyn herio a chefnogi gwaith gwrthfwlio yn genedlaethol ac yn lleol. Mae hefyd yn gyfle i rannu ymarfer a rhannu pryderon cyffredin.

**Mae Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru** iyn glymblaid o sefydliadau sy'n ymwneud â thlodi plant. Fe'i sefydlwyd ym mis Tachwedd 2001 ac mae'n gweithio i gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol o dlodi plant yng Nghymru a mesurau i'w ddileu. Mae'n lobïo dros bolisïau ar bob lefel o fewn y llywodraeth sy'n cyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru.

**Mae'r Rhwydwaith Dechrau'n Deg** yyn cwrdd bob chwarter, gan ddod â Chydlynwyr Dechrau'n Deg o'r

22 Awdurdod Lleol at ei gilydd. Hefyd trefnir cyfarfodydd ychwanegol a gweithdai yn ôl y galw. Mae'r rhwydwaith Dechrau'n Deg yn cynnwys holl reolwyr y rhaglen mewn Awdurdodau Lleol yn ogystal â rheolwyr Llywodraeth Cymru.

**Mae'r Fforwm ar gyfer Darparu Gwasanaeth Integredig** yn dod â gweithwyr proffesiynol ynghyd o bob rhan o Gymru sy'n arwain datblygiad y Tîm o Gwmpas y Teulu fel rhan o raglen Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru. Nod y fforwm yw cynnig cefnogaeth cymheiriaid i reolwyr sy'n ymwneud â datblygu gwasanaethau lleoledig. Mae hefyd yn gyfle i weithwyr proffesiynol rannu arfer da a gwybodaeth wrth ddatblygu ymyriadau cynnar a gwasanaethau ataliol ledled Cymru.

**Mae'r Grŵp Polisi Plant Anabl** yn dod â'r rhai sydd â brîff polisi ynghyd i amlygu materion a phryderon ynghylch gwasanaethau i blant anabl. Mae cysylltiad agos rhwng y grŵp a'r Fforwm ar Faterion i Blant Anabl a'r Rhwydwaith Pobl Ifanc Anabl er mwyn adlewyrchu barn aelodau'r fforwm a sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed.

**Mae Linc3** yn cefnogi'r trydydd sector gyda materion sy'n ymwneud â phlant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae'n galluogi cynrychiolwyr o Gynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol i wella gwybodaeth a chynnig cefnogaeth a dealltwriaeth o'r ddeutu er mwyn gwella eu gwaith mewn Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc. Mae'r aelodau o blaid cynrychiolaeth y trydydd sector a hyrwyddo hawliau plant.

**Grŵp amlasiantaeth yw'r Gyfnewidfa Iechyd Plant sy'n Derbyn Gofal** a'i nod yw helpu i dywys polisi ledled Cymru er mwyn hybu iechyd plant sy'n derbyn gofal. Mae hefyd yn gweithredu fel fforwm ar gyfer rhannu arfer a gwybodaeth.

**Rhwydwaith ar gyfer y rhai sydd â rôl gydlynu strategol o ran cynnal rhieni yn eu Hawdurdod Lleol yw'r Rhwydwaith Cydlynwyr Magu Plant.** Mae'r cyfarfodydd chwarterol yn rhoi cyfle i gydlynwyr rannu materion, datrysiadau, ymchwil a pholisi gyda'u cydweithwyr.

**Mae'r Rhwydwaith Gweithwyr Gofalwyr Ifanc** yn cwrdd deirgwaith y flwyddyn, ac mae hefyd yn cynnal cyfarfodydd is-grwpiau ar bynciau penodol. Mae'r rhwydwaith ar agor i bawb sy'n gweithio gyda gofalwyr ifanc yng Nghymru. Mae'r Rhwydwaith yn rhannu materion, pryderon ac yn cynnal datblygiad arfer da. Mae'r Rhwydwaith hefyd yn cefnogi rhwydwaith gofalwyr ifanc sy'n cwrdd i nodi materion allweddol sy'n destun pryder ac maent yn cael cyfle i gyflwyno'u pryderon i Ddirprwy Weinidog y Gwasanaethau Cymdeithasol yn flynyddol.

***"Cynnwys hynod o werthfawr – fe ddes i ar fy niwrnod i ffwrdd achos rwy wir yn mwynhau'r cyfarfodydd yma"***
**Aelod o Grŵp Cyfnewid Arfer Hawliau** Plant a Phobl Ifanc Gogledd Cymru



# Cynhyrchu a lledaenu gwybodaeth







Mae Plant yng Nghymru'n cynhyrchu ystod eang o wybodaeth er mwyn helpu i sicrhau bod eu haelodau'n derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf.

### Gwefan

Mae gwefan Plant yng Nghymru (www.plantyngnghymru.org.uk) yn cael ei diweddaru'n ddyddiol. Mae'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf nid yn unig am ein gwaith ni, ond hefyd am bolisi sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru a gwybodaeth am wasanaethau lleol ledled Cymru. Dechreuodd y gwaith i ddatblygu a diweddaru gwefan newydd yn 2013/14. Mae hyn wedi cynnwys datblygu cyfleusterau talu ar-lein ar gyfer digwyddiadau ac aelodaeth ac amrediad o wefannau bychan cysylltiedig. Bwriedir i'r wefan newydd fynd yn fyw ym Mai 2014.

### Gwasanaeth yr E-friffiad Polisi

Dosbarthir E-friffiad Polisi'r Aelodau yn fisol i aelodau Plant yng Nghymru. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y datblygiadau polisi sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys newyddion, ymgynghoriadau cyfredol, deddfwriaeth yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y DU, digwyddiadau i ddod a swyddi yn y sector plant. Mae'r E-friffiad Polisi yn cael ei ddosbarthu i fwy na 2000 o unigolion, ond dengys adborth yr aelodau ei fod yn cyrraedd llawer mwy o bobl na hynny yn y sector plant yng Nghymru. Rydym ni hefyd yn cynhyrchu e-friffiadau rheolaidd am Rwydwaith Dileu Tlodi Plant, a'r Rhwydwaith Cyfnewid Arfer a Gwybodaeth Atal Damweiniau Plant.

### Twitter

Mae Plant yng Nghymru yn defnyddio Twitter i hyrwyddo gweithgareddau a chyhoeddiadau yn ogystal â pholisi newydd. Mae Plant yng Nghymru wedi bod yn trydar yn gyson yn Gymraeg a Saesneg ac erbyn diwedd Mawrth 2014 roedd ganddynt 1780 o ddilynwyr yn Saesneg a 174 yn Gymraeg, sy'n godiad o 67% i ddilynwyr Saesneg a 36% i ddilynwyr Cymraeg yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys cymysgedd o unigolion a sefydliadau sy'n gweithio yn y sector plant yng Nghymru, gwleidyddion Cymreig, newyddiadurwyr, busnesau ac amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion y tu allan i Gymru.

**"Rwy wedi bod ar eich rhestr bostio ers blynyddoedd; rôn i ond eisiau dweud fy mod i'n gwerthfawrogi beth rydych chi'n ei roi ynghyd ac yn ei anfon allan. Mae popeth gyda'i gilydd mewn un man hwylus ac yn eitha' perthnasol i beth rwy'n ei wneud a beth rwy'n ymddiddori ynddo." - Derbynydd Bwletin Rwydwaith Dileu Tlodi Plant**

# Cylchgrawn Plant yng Nghymru

Cyhoeddir Cylchgrawn Plant yng Nghymru bob chwarter ac mae’n cynnwys amrywiaeth o newyddion ac erthyglau nodwedd. Mae’n crynhoi’r newyddion diweddaraf o’r Cynulliad a’r Senedd, Plant yng Nghymru a’n haelodau. Mae’n cynnwys ystod o erthyglau manwl a chyfweliadau, yn ogystal â cholofnau rheolaidd gan Gomisiynydd Plant Cymru a’r Ddraig Ffynci, a diweddariad gan MEIC.





**Roedd rhifyn Gwanwyn 2013** yn cynnwys erthyglau ar:

- Gwasanaethau i neiniau a theidiau ledled Ewrop
- Sut mae pobl ifanc yn cael eu portreadu yn y cyfryngau
- Newyddion polisi
- Y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru
- ‘Sdim Curo Plant!
- Fframwaith asesu ar gyfer y blynyddoedd cynnar
- Cefnogi dioddefwyr cam-drin yn y cartref
- Tlodi ac addysg




**Roedd rhifyn Haf 2013** yn cynnwys erthyglau ar:

- Herio’r mythau am dlodi plant
- Camddefnyddio sylweddau
- Ymarfer atal damweiniau
- Gofalwyr ifanc
- Cyfleoedd hyfforddi
- Eiriolaeth annibynnol a Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)




**Roedd rhifyn Hydref 2013** yn cynnwys erthyglau ar:

- Adeiladu Dyfodol Disglair: Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Plant anabl a Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)
- Amddiffyn babanod rhag cael eu hysgwyd
- Roots of Empathy
- Gwenwyno gan nicotin a liquitabs
- Effaith smacio ar iechyd meddwl
- Cyfweliad – Jeff Cuthbert, Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi




**Roedd rhifyn Gaeaf 2013/14** yn cynnwys erthyglau ar:

- Taclo bwlio
- Cefnogi Teuluoedd yn Gytaf
- Teuluoedd sy’n profi tlodi
- Maniffesto tlodi plant
- Gwerthuso Teuluoedd yn Gyntaf
- Herio syniadau asgell dde eithafol ymhlith pobl ifanc
- Y gwir am geisio lloches yng Nghymru
- ’Sdim Curo Plant! Cymru
- Egwyliau byr ar gyfer gofalwyr plant anabl

# Polisi, datblygu ymarfer ac ymchwil

Mae llawer o waith Plant yng Nghymru yn ymwneud â hyrwyddo polisi a datblygu arfer. Yn ystod 2013/14 cynhaliwyd ystod eang iawn o weithgareddau a oedd yn hyrwyddo polisi a datblygu arfer ar draws amrywiaeth o feysydd. Roedd y rhain yn cynnwys:

### Tlodi

Yn ystod 2013/14 mae Plant yng Nghymru wedi parhau i gynnal amrediad o waith i drechu tlodi plant a theuluoedd yng Nghymru. Mae hyn wedi cynnwys prosiect ymchwil peilot i edrych ar faterion allweddol sy'n gysylltiedig â thlodi sy'n cael eu dwyn i gymorthfeydd Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol ledled Cymru, a'u codi gyda Chanolfannau Cyngor ar Bopeth. Dylai adroddiad yr ymchwil gael ei gyhoeddi yn yr Haf 2014. Mae Plant yng Nghymru hefyd wedi gweithio gyda phartneriaid fel rhan o Rwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru, i gyhoeddi adroddiad wedi ei ddiweddaru Tlodi Plant: Rhaglen tuag at ei Ddileu. Mae'r adroddiad yn nodi cyfres o flaenoriaethau ar draws 13 maes polisi.



### Atal Damweiniau

Yn ystod 2013/14, parhaodd Plant yng Nghymru ei waith i atal damweiniau ac anafiadau i blant. Roedd hyn yn cynnwys cyhoeddi canllaw ymarfer, Diogelwch Plant yng Nghymru: Enghreifftiau o Ymyriadau ar Waith, sy'n rhoi enghreifftiau ymarferol o weithgarwch atal damweiniau yng Nghymru. Mae Plant yng Nghymru hefyd wedi gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar sawl fater gan gynhyrchu poster i amlygu peryglon gwenwyno o 'liquitabs, papur briffio ar atal gwenwyno nicotin, a chyda Chymdeithas Feddygol Prydain ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ar beryglon mygu i fabanod o ganlyniad i sachau cewynnau.

### Gofalwyr Ifanc

Dyfarnodd Llywodraeth Cymru gontract i Plant yng Nghymru i gynnal astudiaeth i ddefnydd cynlluniau cardiau adnabod gofalwyr ifanc ledled Cymru. Roedd y gwaith hwn yn golygu nodi a gwerthuso cynlluniau cardiau adnabod i ofalwyr ifanc sydd ar waith neu rai peilot yng Nghymru, gan edrych ar arfer da o weddill y DU, dysgu oddi wrth gynlluniau sydd wedi cael eu hystyried ond heb eu datblygu, a gwaith uniongyrchol gyda gofalwyr ifanc a gwasanaethau iddyn nhw.

### Bwlio

Cynhaliodd y Grŵp Atal Ymddygiadau Bwlio gynhadledd Sut allwn ni weithio gyda'n gilydd i leihau bwlio? Ym mis Tachwedd. Cododd aelodau o Grŵp Atal Ymddygiadau Bwlio bryderon am y diffyg tystiolaeth, dealltwriaeth a chofnodi bwlio ledled Cymru, sy'n arwain at ddiffyg cysondeb a chyd-drefnu, nid yn unig mewn ysgolion ond ar draws cymunedau cyfan. Cafodd y gynhadledd ei defnyddio'n fforwm i alw am ymagwedd fwy cydlynus ar ymdrin â bwlio drwy fframwaith gan Lywodraeth Cymru a fyddai'n gweithio ar draws y gymuned gyfan yn ogystal â gwaith mewn ysgolion. Yn dilyn y gynhadledd mae Grŵp Atal Ymddygiadau Bwlio bellach yn trefnu cyfres o bedwar gweithdy a fydd yn digwydd yn ystod y flwyddyn nesaf gan edrych ar wahanol agweddau ar fwlio.

### Cymorth i Deuluoedd a Rhianta

Mae Plant yng Nghymru wedi bod yn gweithio ar ddatblygu Arweiniad i Ofal gan Berthynas i Gymru,

wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r arweiniad yn cael ei ddatblygu gyda chefnogaeth amrediad o gyrff eraill a dylai gael ei gyhoeddi yn hwyr yn 2014.

### Y trydydd sector

Plant yng Nghymru sy'n cynrychioli sector gwirfoddol plant ar Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector. Mae hyn yn golygu cymryd barn y sawl sy'n gweithio yn sector gwirfoddol plant i gyfarfodydd Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ac i gyfarfodydd sy'n cael eu trefnu gyda gweinidogion unigol.

### Dyfodol Gwasanaethau Cymdeithasol

Trwy gydol 2013/14 sicrhaodd Plant yng Nghymru fod barn ein haelodau yn cael ei chymryd i wneuthurwyr polisi wrth i'r trefniadau newydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru gael eu datblygu. Rydym yn cael ein cynrychioli ar Fforwm Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Bwrdd Arweinyddiaeth Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol, ac roeddem ni'n weithgar wrth lobio wrth i'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant deithio drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

### 'Sdim Curo Plant Cymru

Mae Plant yng Nghymru yn rhan o ymgyrch y DU gyfan Cynghrair 'Sdim Curo Plant!, sy'n ymgyrchu am newid i'r gyfraith i roi'r un amddiffyniad cyfreithiol rhag cael eu curo i blant a phobl ifanc ag sydd gan oedolion, drwy ddileu amddiffyniad "cosb resymol". Plant yng Nghymru sy'n cyd-drefnu ymgyrch 'Sdim Curo Plant!/ Children are Unbeatable! Cymru, er mwyn hybu gwaith yr ymgyrch yng Nghymru. Mae Plant yng Nghymru yn darparu'r gefnogaeth weinyddol i'r ymgyrch, yn cynnal gwefan yr ymgyrch ac mae wedi helpu i drefnu dathliad Diwrnod Plant Byd-eang a gwylnos ar gyfer yr ymgyrch ar 20 Tachwedd 2013.

### Grŵp Seneddol Trawsbleidiol i Blant yng Nghymru

Mae Plant yng Nghymru yn gwasanaethu'r Grŵp Seneddol Trawsbleidiol i Blant yng Nghymru yn San Steffan. Mae'r grŵp hwn yn galluogi ASau o Gymru sydd â diddordeb mewn materion plant drafod materion o bryder a chwrdd â'r sawl sy'n gweithio yn y sector plant yng Nghymru. Cyfarfu'r grŵp sawl gwaith yn ystod 2013/14. Ymhlith y pynciau a gafodd eu trafod roedd Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac adroddiad Comisiynydd Plant Cymru.

### Grŵp Trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru dros Blant

Mae Plant yng Nghymru yn darparu ysgrifenyddiaeth Grŵp Trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol dros Blant. Mae'r Grŵp yn cwrdd i ystyried gwahanol faterion o bwys i blant yng Nghymru ac ystyried y goblygiadau polisi. Mae'r cyfarfodydd hefyd yn gyfle i gynrychiolwyr y cyrff perthnasol gwrdd ag Aelodau'r Cynulliad i drafod materion o bryder i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Cyfarfu'r grŵp sawl gwaith yn ystod 2013/14. Yn Nhachwedd 2013 hwylusodd gyfarfod a drefnwyd gan ymgyrch 'Sdim Curo Plant! â Chadeirydd y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn, Kristen Sandberg, ac yn Chwefror 2014 trafododd y grŵp ymchwil Plant yng Nghymru mewn perthynas â thlodi.



# Ymgynghori



Un o brif rolau Plant yng Nghymru yw cyfleu barn eu haelodau i lunwyr polisi, ac rydym yn gwneud hynny mewn nifer o ffyrdd. Rydym yn ymateb i ystod eang o ymgynghoriadau ac yn cadw mewn cysylltiad â'n haelodau, ein fforymau a'n rhwydweithiau i sicrhau bod ein hymatebion yn tynnu sylw at yr holl faterion perthnasol i'r rhai sy'n gweithio yn y maes. Mae copïau o'n holl ymatebion ymgynghori ar gael i'n haelodau yn Adran Aelodau ein gwefan.

## Ymatebion i Ymgynghoriadau

- Datblygu Fframwaith Cenedlaethol Safonau a Chanlyniadau ar gyfer Gwasanaethau Eiriol Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Mai 2013
- Rheoliadau drafft Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru), Llywodraeth Cymru, Mai 2013
- Cymru a'r UE: Partneriaeth ar gyfer Swyddi a Thwf – Cronfeydd Strwythurol Ewrop 2014-2020, Llywodraeth Cymru, Ebrill 2013
- Papur Gwyn Rhenti Cartrefi: Ffordd Well i Gymru, Llywodraeth Cymru, Awst 2013
- Asesiad Effaith Cydraddoldeb o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020, Llywodraeth Cymru, Awst 2013
- Adnewyddu'r Berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector, Llywodraeth Cymru, Awst 2013
- Gweledigaeth am Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd i Gymru 2013-2018, Llywodraeth Cymru, Medi 2013
- Canllawiau diwygiedig ar Ddiogelu Plant mewn Addysg, Llywodraeth Cymru, Hydref 2013
- Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu, Llywodraeth Cymru, Hydref 2013. Ymateb Grŵp Atal Ymddygiadau Bwlio Plant yng Nghymru Preventing.
- Newidiadau i Wasanaethau Rhondda Cynon Taf: Cynigion Cyfnod 1 , Rhagfyr 2013 cyflwynodd Plant yng Nghymru ymateb ar ran a chyda'r Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant
- Cynllun Hawliau Plant drafft 2014: Trefniadau am roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) wrth i Weinidogion Cymru ymarfer unrhyw rai o'u swyddogaethau, Llywodraeth Cymru, Chwefror 2014

## Ymchwiliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

- Craffu ar Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) - rhoddodd Plant yng Nghymru gyflwyniad gerbron Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â'i waith craffu ar y Bil hwn ar ddau achlysur.
- Ymchwiliad i Ganlyniadau Addysgol Plant o Aelwydydd Incwm Isel. Darparodd Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant yn Plant yng Nghymru dystiolaeth ysgrifenedig i'r ymchwiliad a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Ymchwiliad i Lefelau Cyfranogiad mewn Chwaraeon. Cyflwynodd Plant yng Nghymru gyda'r Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru ymateb i Ymchwiliad Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Lefelau Cyfranogiad mewn chwaraeon yng Nghymru.

# Cynrychiolaeth

Mae Plant yng Nghymru yn tynnu sylw at bryderon ein haelodau ac yn hwyluso datblygiad yr agenda plant a phobl ifanc yng Nghymru trwy gynrychiolaeth ar nifer o grwpiau. Yn ystod 2013/14 roedd y rhain yn cynnwys:

**Llywodraeth Cymru**

- Grŵp Datblygu Agored
- Bwrdd Partneriaeth Osgo a Symudedd Cymru Gyfan
- Y Rhwydwaith Gwrth-fwlio
- Grŵp Ymgynghorol Rhanddeiliaid CAFCASS Cymru
- Grŵp Rhanddeiliaid y Mesur Gofalwyr
- Grŵp Ymgynghorol Darparu CAMHS
- Cyrff Gofal a Chwarae Plant
- Cynghrair Cymru ar gyfer Cymorth a Gyfarwyddir gan Ddinasyddion
- Mynediad Uniongyrchol i'r Fydwraig
- Rhwydwaith y gweithlu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Bwrdd Darparu Gwasanaethau Effeithiol ar gyfer Plant Hawdd eu Niweidio
- Grŵp Gorchwyl a Gorffen Fframwaith Monitro Teuluoedd yn Gyntaf
- Grŵp Gweithredu Gwneud Pethau'n Iawn
- Fframwaith Mesur Perfformiad Awdurdodau Lleol - Grŵp Gorchwyl a Gorffen
- Grŵp Llywio Cyfathrebu a Marchnata Llythrennedd a Rhifedd
- Grŵp Gweithredu Gwasanaethau Mamolaeth
- Grŵp Marchnata MEIC
- Pwyllgor Cydgysylltu Gwasanaethau Mamolaeth
- Grŵp llywio'r Fframwaith gwella newydd a'r cytgord newydd – gwasanaethau cymdeithasol
- Digwyddiadau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Grŵp Strategaeth Adnewyddu Gofalwyr
- Fforwm Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol
- Bwrdd Arweinyddiaeth Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol
- Tasglu Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol Gwasanaethau Cymdeithasol
- Papur Gwyn Rheoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Cymdeithasol – Cyfarfod y Grŵp Polisi Ymgynghorol
- Grwpiau diogelu ar gyfer y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol
- Gwasanaethau Cymdeithasol – Tîm Darparu Cryf a Phroffesiynol
- Acoladau Cymdeithasol Cyngor Gofal Cymru
- Datganiadau neu Rywbeth Gwell
- Bwrdd Ymgynghorol Camddefnydd Sylweddau
- Grŵp Rhanddeiliaid Siarad am Ofal – Datblygu Fframwaith Canlyniadau i'r GIG
- Grŵp Ymgynghorol Arbenigol Trechu Tlodi
- Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a chyfarfodydd cysylltiedig
- Rhwydwaith Ymgynghorol Diogelu ac Amddiffyn

**Cynulliad Cenedlaethol**

- Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd
- Grŵp Ymgysylltu ag Ieuenctid
- Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi Tanwydd
- Grŵp Trawsbleidiol ar Blant sy'n Derbyn Gofal

**Y DU**

- y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant

**Sector Statudol**

- Grŵp Cynrychiolwyr Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan
- Rhwydwaith Cyngor Sir y Fflint
- Is-grŵp Nod Craidd 7 i Blant a Phobl Ifanc Conwy
- Derwen – Gwasanaethau Arbenigol Plant
- Grŵp cynrychioli Cwsmeriaid y Ganolfan Byd Gwaith
- Rhwydwaith Cyfranogi Plant a Pobl Ifanc a Theuluoedd Gwynedd

**Academaidd**

- Pwyllgor Monitro Data Annibynnol Blociau Adeiladu (Gwerthuso Nyrsys Teulu)
- Grŵp Llywio Cyfranogiad Cyhoeddus DECIPHER (Datblygu a Gwerthuso Ymyrraeth Gymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd)
- Grŵp Llywio'r Blynyddoedd Anhygoel



### Iechyd

- Grŵp Cynllunio Gweithredu CAMHS
- Grŵp Llywio'r Rhaglen Mesur Plant
- Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid NLIAH (Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi ar gyfer Gofal Iechyd)
- Grŵp Ymgynghorol Arbenigol Paediatreg ac Iechyd Plant (NSAG)

### Aml-asiantaeth/sector

- Cyfarfod Rheolwyr Rhwydwaith Anabledd Cymru Gyfan
- Fforwm FGM Cymru Gyfan



- Rhwydwaith Cyfarfodydd Grwpiau Teulu Cymru Gyfan
- Fforymau Iechyd a Lles ym maes Lloches
- Grwpiau tasg y Gronfa Loteri Fawr
- Grŵp Ymgynghorol Booktrust
- Grŵp Llwybr Plant a Theuluoedd
- Grŵp Llywio'r Blynyddoedd Cynnar
- Grŵp Llywio Lles Emosiynol Plant sy'n Derbyn Gofal
- Fframwaith Mesur Canlyniadau Dechrau'n Deg
- Grŵp y Glymblaid Tlodi Tanwydd
- Bwrdd Ymgynghorol Rhaglen JRF – Tlodi ac Ethnigrwydd yng Nghymru
- Grŵp Siarter Plant sy'n Derbyn Gofal
- Grŵp Llywio Cenedlaethol Achosion Gwenwyno Plant
- Grŵp Llywio Cenedlaethol Adolygu Marwolaethau Plant a Grwpiau Adolygu Thematig
- Cyfarfodydd Gweithwyr Cyfranogiad Gogledd Cymru
- Bwrdd prosiect Diwygiad Statudol AAA
- Diwygiad Statudol AAA Rhwydwaith Grwpiau Aml-asiantaeth Plant ar Eu Pen Eu Hun yn Ceisio Lloches a Theuluoedd
- LSCB Bro Morgannwg – hawliau plant mewn diogelu

### Y Trydydd Sector

- Grŵp Polisi Lloches Plant Cymru Gyfan
- Y Rhwydwaith Ymlyniad
- Y Gynghrair Gofalwyr (cyfrannwr craidd)
- Cyngor plant anabl - NCB
- Cynghrair Cymru ar gyfer Cymorth a Gyfarwyddir gan Ddinasyddion
- Fforwm Tlodi Diwylliannol
- Bwrdd Rheoli Cywaith
- Fforwm Plentyndod Cynnar, Biwro Plant Cenedlaethol
- Grŵp Gweithredu Cymorth Cynnar
- Bwrdd Rheoli Dileu Tlodi Plant
- Y Glymblaid Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Fforwm Tlodi Tanwydd - De Cymru
- Fforwm Tlodi Tanwydd – Gogledd Cymru
- Bwrdd Rheoli'r Ddraig Ffynci
- Grŵp Llywio Atal Damweiniau yn y Cartref Cymru
- Grŵp rhanddeiliaid LDAN
- Grŵp Ymgynghorol NEA Cymru
- Fforwm Gallu Ariannol Gogledd Cymru
- Bwrdd Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru
- SANA (Cadeirydd)
- Panel Etholaethau Dysgu a Datblygu'r Gymuned Cymwysterau a Sgiliau'r DU
- Grŵp Monitro UNCRC
- Bwrdd a Phwyllgor F&HR Lleisiau o Ofal
- Cynghrair Cymru ar gyfer Cymorth a Gyfarwyddir gan Ddinasyddion
- Cynghrair Rheoli Tybaco Cymru
- Cynghrair Cynghreiriau WCVA
- •Pwyllgor Gweithredol WCVA
- Bwrdd WCVA
- Tasglu Gwrth-dlodi WCVA

### Rhyngwladol

- Grŵp Llywio Polisi Eurochild
- Cynghrair Diogelwch Plant Ewropeaidd
- Grŵp Llywio Cynghrair Diogelwch Plant Ewropeaidd
- Fforwm Rhyngwladol y Pwyllgor Gweithredol Lles Plant

# Cynyddu ymwybyddiaeth gyhoeddus a phroffesiynol

### Y cyfryngau a chyflwyniadau

Trwy'r cyfryngau gallwn roi cyhoeddusrwydd i'n gwaith ein hunain a'r pryderon sydd gennym ynghylch materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Yn ystod 2013/14 fe wnaethom ni ryddhau nifer o ddatganiadau i'r wasg ynghylch ein digwyddiadau, ein cyhoeddiadau a materion eraill. Mae staff Plant yng Nghymru wedi cael eu cyfweld dros 50 o weithiau ar y teledu a'r radio, yn lleol ac yn genedlaethol, ac i ystod o gyfryngau printiedig. Rydym hefyd wedi rhoi cyflwyniadau i grwpiau llai, yn ogystal â chynadleddau mawr, am ein gwaith a meysydd pryder penodol, a hynny ar lefel leol a rhyngwladol.

### Digwyddiadau

Mae ein cynadleddau a'n digwyddiadau yn fforwm i amlygu materion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yng Nghymru. Yn ystod 2013/14 fe fuom ni'n cynnal ystod o gynadleddau, seminarau a gweithdai. Edrychodd y rhain ar amrediad o faterion fel ymgysylltu â rhieni mewn gwasanaethau cymorth i deuluoedd, atal babanod rhag cael eu hysgwyd a bwlio. Hefyd trefnom ni amrediad o ddiwrnodau gwybodaeth a seminarau a adawodd i weithwyr proffesiynol ddod ynghyd a dysgu am faterion penodol. Roedd y rhain yn amrywio o gyfres o ddigwyddiadau a ganolbwyntiodd ar sut i leihau camddefnydd sylweddau, a diwrnod gwybodaeth am amddiffyn plant drwy lens diwylliannol a chipolwg ar bolisi ac arfer presennol mewn perthynas â phlant anabl.

### Hyfforddiant

Mae Plant yng Nghymru'n darparu ystod o gyrsiau hyfforddi amlddisgyblaeth, sy'n hyrwyddo dull integredig ymhlith pawb sy'n gweithio yn y sector statudol, y trydydd sector a'r sector annibynnol. Mae'r cyrsiau'n tynnu ar adnoddau ein tîm ein hunain o staff arbenigol a rhwydwaith cenedlaethol o unigolion a sefydliadau arbenigol, er mwyn darparu hyfforddiant ansawdd uchel ledled Cymru. Mae Plant yng Nghymru mewn sefyllfa i ddarparu hyfforddiant achrededig, ac yn ystod 2013/14 enillodd statws canolfan hyfforddiant achrededig. Rydym hefyd yn darparu hyfforddiant wedi'i gomisiynu ar gyfer sefydliadau.

### Desg gymorth a gwasanaethau cyfeirio ymlaen

Derbyniodd Plant yng Nghymru dros 200 o ymholiadau yn ystod 2013/14, a hynny gan aelodau o'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol yn y sector plant. Mae'r rhain wedi cwmpasu ystod o faterion, gan gynnwys amddiffyn plant, atal hunanladdiad, tlodi plant, rheoli ymddygiad, gweithio neu wirfoddoli gyda phlant, polisi, cofrestru ar gyfer gofalwyr plant a materion cyswllt.



# Cynadleddau a digwyddiadau eraill



*"Diwrnod pleserus iawn a ddiwallodd fy nisgwyliadau"* **Cynrychiolydd yng nghynhadledd Bwlio: Rhannu'r Her**

*"Diolch. Cynhadledd ragorol arall gan Plant yng Nghymru"* **Cynrychiolydd yng nghynhadledd Ennyn diddordeb rhieni mewn cymorth i deuluoedd a chymorth rhianta.**

Yn ystod 2013/14 cynhaliodd Plant yng Nghymru y digwyddiadau canlynol:

## Cynadleddau

- **Sicrhau ymgysylltu rhwng rhieni a gwasanaethau cymorth i deuluoedd a rhieni,**
  18 Medi 2013, Caerdydd
- **Sicrhau ymgysylltu rhwng rhieni a gwasanaethau cymorth i deuluoedd a rhieni,**
  24 Medi, Wrecsam
- **Shaking your baby is just not the deal**
  30 Medi, Llandrindod Wells
- **Bwlio - Rhannu'r Her,**
  15 Tachwedd, Caerdydd
- **#infoforthefuture Cynadleddau,** gyda Family and Youth Information Services a Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam,
  28 Mawrth 2014, Wrecsam

## Digwyddiadau eraill

- **Ymchwiliad Annibynnol i Ddysgu fel Teulu (Lloegr a Chymru) - Seminar Polisi,** 18 Ebrill 2013, Caerdydd
- **Barti 20fed Pen-blwydd Plant yng Nghymru,**
  10 Mai, Caerdydd
- **Ymlyniad Cynnar a Phwysigrwydd Iaith,**
  21 Mai Caerdydd
- **Miaow Miaow – Nid cath fach ydy hon!**
  5 Mehefin, Blaenau Gwent
- **Ymlyniad Cynnar a Phwysigrwydd Iaith,** 10 Mehefin 2013, Deganwy
- **Ymchwiliad Annibynnol i Ddysgu fel Teulu (Lloegr a Chymru) - Seminar Polisi**
  16 Mehefin, Caerdydd
- **Miaow Miaow – Nid cath fach ydy hon!**
  1 Gorffennaf Treharris
- **Gwybodaeth Ddiweddaraf am Ddatblygiadau Polisi ac Arfer ar gyfer Plant Anabl, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru, Diwrnod Gwybodaeth Y Fforwm Anabl**
  16 Gorffennaf, Caerdydd
- **Beth sy'n gweithio o ran gwaith ieuenctid? Digwyddiad Grŵp Cyfnewid Arfer Plant a Theuluoedd Practice, 10 Medi 2013, De Cymru South Wales**
- **Diogelu Plant a Phobl Ifanc rhag Camdriniaeth, Digwyddiad Grŵp Cyfnewid Arfer Hawliau Plant a Phobl,**
  20 Medi, Gogledd Cymru
- **Amddiffyn Plant drwy Lens Diwylliannol – Cynhaliwyd ar y cyd gan Loches Dinas Abertawe a Plant yng Nghymru** 31 Hydref 2013

# Hyfforddiant

Mae Plant yng Nghymru yn darparu ystod o gyrsiau hyfforddi ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn y sector plant yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cyrsiau hyfforddi sydd ar agor i bawb, a hyfforddiant penodol a gomisiynwyd gan asiantaethau allanol.

## Hyfforddiant agored Plant yng Nghymru

Yn ystod 2012/2013 cynhaliodd Plant yng Nghymru raglen lwyddiannus iawn o hyfforddiant agored. Roedd ein llyfryn hyfforddi'n cynnwys amrywiaeth uchelgeisiol o hyfforddiant, yn cynnwys pynciau newydd, yn ogystal â rhai oedd wedi'u cynnal yn llwyddiannus yn y gorffennol. Ymhlith y pynciau a drafodwyd roedd amddiffyn plant, e-ddiogelwch, cadw plant yn ddiogel, cydnabod ac ymateb i ymddygiadau bwlio, cefnogi rhieni, gweithio gyda grwpiau a chanlyniadau meddal.

## Hyfforddiant wedi'i gomisiynu

Mae Plant yng Nghymru'n darparu hyfforddiant mewnol yn rheolaidd ar gyfer ystod eang o sefydliadau, o elusennau bychain a busnesau preifat, i adrannau hyfforddi awdurdodau lleol. Mae'r pynciau craidd mae Plant yng Nghymru yn darparu hyfforddiant arnynt yn cynnwys amddiffyn plant, adeiladu gwydnwch mewn pobl ifanc, gweithio gyda gwrywod arwyddocaol ac atal damweiniau yn y blynyddoedd cynnar, er ein bod ni hefyd yn darparu hyfforddiant mewnol ar unrhyw rai o'r pynciau a hysbysebir yn ein rhaglen hyfforddiant agored.

## Hyfforddiant amddiffyn plant i ddeintyddion

Mae Plant yng Nghymru wedi bod yn darparu hyfforddiant amddiffyn plant yn llwyddiannus ers 4 blynedd i Adran Ôl-raddedig Deintyddol Ysbyty Deintyddol y Brifysgol. Rydym wedi'n contractio i ddarparu hyfforddiant Amddiffyn Plant Lefel 2, yn fewnol, i holl staff practisau deintyddol ac mewn Canolfannau i Ôl-raddedigion yng Nghymru. Rydym wedi darparu 78 o sesiynau hyfforddiant amddiffyn plant, gan gyrraedd 758 o ddeintyddion ledled Cymru, rhwng Ebrill 2013 a Mawrth 2014.

## Canolfan Hyfforddiant Achrededig

SMae rhai o gyrsiau hyfforddiant Plant yng Nghymru wedi eu hachredu gydag Agored Cymru fel ei gorff dyfarnu. Mae Plant yng Nghymru wedi cyflwyno unedau o Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru yn llwyddiannus ers yr hydref 2012, ac yn y gwanwyn 2014 enillodd Plant yng Nghymru statws canolfan hyfforddiant achrededig, sy'n golygu y gallwn gynnal cyrsiau hyfforddiant achrededig yn ein hawl ein hunain.

***"Offer a strategaethau defnyddiol iawn i'w cymryd i ffwrdd sy'n realistig i'w defnyddio'n ymarferol. Roedd yr hwylusydd yn frwdfrydig iawn …"*** **Cyfranogwr yn yr Hyfforddiant Adeiladu Gwydnwch mewn Pobl**



# Cyrsiau hyfforddi agored yn ystod 2013/14



*"Sesiynau hyfforddiant wedi eu cynllunio'n dda iawn a'u cyflwyno'n glir. Roedd yr hyfforddwr yn hyddysg ac yn gyfeillgar. Faswn i'n argymell cyrff eraill i fynychu'r hyfforddiant yma. Diolch."* Aelod o gwrs Hyfforddiant ar gyfer Swyddogion Amddiffyn Plant Dynodedig

- **Cadw'n Plant yn Ddiogel 24&25th** Ebrill 2013, Caerdydd
- **Adeiladu Gwydnwch mewn Pobl Ifanc,** 15 Mai, Caerdydd
- **Cadw'n Plant yn Ddiogel,** 21 & 22 Mai, Caerfyrddin
- **Cefnogi Rhieni i Siarad am Dyfu i Fyny,** 13 Mehefin, Caerdydd
- **Cydnabod ac Ymateb i Ymddygiadau Bwlio,** 14 Mehefin, Y Rhyl
- **Gweithio gyda Grwpiau,** 19 Mehefin, Hen Golwyn
- **Cyflwyniad i Ganlyniadau Meddal,** 20 Mehefin, Caerdydd
- **Deall Plant yn eu Harddegau,** 25 Mehefin, Caerdydd
- **Gweithio gyda Grwpiau,** 26 Mehefin, Pen-y-bont
- **Deall sut i Ddiogelu Lles Plant a Phobl Ifanc,** 3 Gorffennaf, Caerdydd
- **Cyflwyniad i Ganlyniadau Meddal,** 10 Gorffennaf, Y Rhyl
- **Cefnogi Rhieni i Siarad am Dyfu i Fyny,** 12 Medi, Caerfyrddin
- **Cydnabod ac Ymateb i Ymddygiadau Bwlio,** 18 Medi, Caerfyrddin
- **Gweithio gyda Grwpiau,** 26 & 27 Medi, Caerdydd
- **Gweithio gyda Thadau,** 27 Medi, Merthyr
- **E-Ddiogelwch gyda Phlant dan 8,** 3 Hydref, Caerdydd
- • **Adeiladu Gwydnwch mewn Pobl Ifanc,** 8 Hydref, Y Rhyl
- **Goruchwylio: Model ar gyfer Arfer** 10 & 11 Hydref, Caerdydd
- **Risg a Gwydnwch mewn Seiberofod: Edrych ar Ddefnydd Pobl Ifanc o Amlgyfryngau,** 23 Hydref, Castell-nedd
- **Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol wrth Ddiogelu Plant,** 23 Hydref, Abertawe
- **Gweithio'n Gadarnhaol gyda Phlant Awtistig yn y Blynyddoedd Cynnar,** 25 Hydref, Merthyr
- **Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol wrth Ddiogelu Plant,** 5 Tachwedd, Wrecsam
- **Cadw'n Plant yn Ddiogel,** 5 & 6 Tachwedd, Caerdydd
- **Goruchwylio: Model ar gyfer Arfer,** 11&12 Tachwedd, Wrecsam
- **Ymlyniad a'i Rôl ym Mywydau Plant,** 18 Tachwedd, Caerdydd
- **Adeiladu Gwydnwch mewn Pobl Ifanc,** 28 Tachwedd, Merthyr Tudful
- **Cyflwyniad i Ganlyniadau Meddal and Distance Travelled, 29 Tachwedd, Caerdydd**
- **Dulliau Positif o Greu Ymddygiadau Positif, 2 Rhagfyr, Caerdydd**
- **Mynd i'r Afael â Pholisi Plant a Theuluoedd yng Nghymru, 6 Rhagfyr 2013, Caerdydd**
- **E-Ddiogelwch gyda Phlant dan 8, 7 Chwefror 2014, Caerdydd**
- **Deall sut i Ddiogelu Lles Plant a Phobl Ifanc, 12 Chwefror, Caerdydd**
- **Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol wrth Ddiogelu Plant, 13 Chwefror, Casnewydd**
- **E-Ddiogelwch gyda Phlant dan 8, 20 Chwefror, Wrecsam**
- **Cydnabod ac Ymateb i Ymddygiadau Bwlio, 6 Mawrth, Merthyr Tudful**
- **Deall sut i Ddiogelu Lles Plant a Phobl Ifanc, 7 Mawrth, Wrecsam**
- **Gweithio gyda Thadau, 10 Mawrth, Wrecsam**
- **Mynd i'r Afael â Pholisi Plant a Theuluoedd yng Nghymru, 13 Mawrth, Conwy**
- **Lleihau Damweiniau mewn Lleoliadau Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar, 20 Mawrth, Merthyr**
- **Cadw'n Plant yn Ddiogel, Hyfforddiant am y Person Dynodedig ar gyfer Amddiffyn Plant, 20 & 21 Mawrth, Caerdydd**
- **Gweithio gyda Grwpiau, 24 & 25 Mawrth, Caerfyrddin**
- **Gweithio gyda Thadau, 26 Mawrth, Caerdydd**

# Prosiect Cynnwys Teuluoedd

Mae Prosiect Cynnwys Teuluoedd yn cael ei gynnal gan Plant yng Nghymru, gydag arian o'r Gronfa Loteri Fawr, gan weithio gyda theuluoedd a chymunedau Ceiswyr Lloches, Ffoaduriaid a Mudwyr i amddiffyn a diogelu plant yn y teuluoedd hyn. Dechreuodd y Prosiect yn hwyr yn 2011 i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o sut i amddiffyn a hybu lles plant, gan gynnwys dulliau rhianta positif i wella rhianta a chyfathrebu o fewn teuluoedd a chadw plant yn ddiogel yn eu hamgylchedd cartref. Nod y Prosiect yw cynyddu lefelau dealltwriaeth, o fewn teuluoedd a chymunedau, o'u rôl hanfodol mewn diogelwch, lles, addysg, iechyd a datblygiad plant. Mae hyn yn cynnwys eu gwneud yn ymwybodol o'r gyfraith ac arferion amddiffyn plant yng Nghymru, sy'n berthnasol i bobl sydd wedi cyrraedd o wledydd a diwylliannau gwahanol.

Yn ogystal â gweithio gyda grwpiau cymunedol, mae'r prosiect yn cynnig sesiynau codi ymwybyddiaeth i weithwyr proffesiynol ac ymarferwyr sy'n gweithio ym meysydd addysg, gofal cymdeithasol ac iechyd, am heriau penodol wrth ddiogelu plant mewn cymunedau ceiswyr lloches, ffoaduriaid a mudwyr. Mae'r sesiynau hyn yn trafod ffurfiau camdriniaeth penodol a allai ddigwydd mewn teuluoedd a chymunedau ac ymwybyddiaeth o arferion diwylliannol gwahanol a fydd efallai'n peri pryder i ymarferwyr.

Mae'r prosiect wedi datblygu gwefan sy'n cynnwys amrediad o adnoddau aml-iaith, gan roi gwybodaeth i deuluoedd, cymunedau, unigolion, sefydliadau a gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â theuluoedd ceiswyr lloches, ffoaduriaid a mudwyr, am faterion a phryderon sy'n effeithio ar y teuluoedd hyn a'u plant.




Rydym wedi parhau i ddatblygu'r adnodd ar-lein a'r gronfa wybodaeth electronig. Gallwch chi weld y wefan yn www.includingfamilies.org.uk.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r prosiect wedi cysylltu â chyrff mudwyr o Wlad Pŵyl er mwyn meithrin partneriaeth a hybu'r prosiect a cheisio ennyn diddordeb teuluoedd mudwyr i ddarparu gweithdai. Rydym wedi datblygu'n cwrs hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol wrth Ddiogelu Plant ymhellach ac mae hwn wedi bod yn boblogaidd gyda chyrff statudol, gwirfoddol a'r trydydd sector ledled Cymru. Recriwtiom ni 5 gwirfoddolwr; mae dau ohonynt wedi derbyn statws ffoadur ac wedi symud ymlaen i gyflogaeth am dâl, cafodd 1 ei symud i ardal wasgaru arall yn Lloegr a chafodd 1 ei alltudio. Rydym i bob amser yn chwilio am wirfoddolwyr newydd ac wedi derbyn sawl mynegiant o ddiddordeb.

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd cynhadledd a gafodd ei chynnal ym Mhrifysgol Abertawe mewn partneriaeth ag Abertawe Dinas Noddfa, pan roddodd siaradwyr blaenllaw anerchiadau a chyflwyniadau ysbrydoledig i brocio'r meddwl, ar bynciau a oedd yn cynnwys masnachu mewn pobl, enwaedu benywod, priodas dan orfod a thrais ar sail anrhydedd a chamdriniaeth sy'n gysylltiedig â chredoau crefyddol. Roeddem ni'n ffodus i groesawu Steve Chapman, Cydlynydd Gwrth-Gaethiwed Cymru, yn un o'n prif siaradwyr a Debbie Ariyo, OBE, Prif Weithredwr Afruca yn Llundain. Mae Cynnwys Teuluoedd hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Ffoaduriaid Cymru a Displaced People in Action i drefnu gweithgareddau a digwyddiadau ar gyfer teuluoedd ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

INCLUDING FAMILIES PROJECT

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

# Gyda'n Gilydd Dros Hawliau (T4R)



*"Ces i amser gwych, dwi erioed wedi gwneud unrhyw beth fel hyn o'r blaen! Roedd y drymio Affricanaidd yn cŵl iawn, diolch!"* **Aelod o T4R**

*"I love coming to the meetings and events as I like to see the young people from other parts of Wales and learn more about my rights. It helps my self-confidence too."* **Member of T4R**

Nod grŵp 'Gyda'n Gilydd Dros Hawliau' (T4R) Plant yng Nghymru yw dod â phobl ifanc anabl o bob rhan o Gymru ynghyd a rhoi cyfleoedd iddyn nhw:

- Gwrdd a chael hwyl
- Deall eu hawliau
- Codi materion o bryder yn eu bywydau bob dydd
- Cael llais yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw a'u cymheiriaid
- Adeiladu eu gallu, drwy gynyddu eu hyder a'u hunan-barch, i ddod yn aelodau gweithgar eu cymunedau lleol

Yn ystod 2013/14, mae pobl ifanc ar grŵp Gyda'n Gilydd Dros Hawliau wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriadau ar faterion sy'n bwysig iddyn nhw, wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau, ac wedi cynrychioli'r grŵp mewn achlysuron fel lansiad fframwaith Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu Llywodraeth Cymru.

Mae T4R wedi tyfu eleni ac wedi croesawu aelodau newydd o Gaerdydd, Casnewydd, Bro Morgannwg, Gwynedd a Sir y Fflint. Mae sawl sesiwn wedi cael ei chynnal mewn ysgolion arbennig ledled Cymru sydd wedi canolbwyntio ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn arbennig yr hawl i gymryd rhan ac i gael bywyd cymdeithasol annibynnol.

Gwelodd 2013/14 ddatblygiad cwrs achrededig newydd ar gyfranogiad i aelodau T4R hefyd. Cafodd y rhaglen hyfforddiant ei datblygu gyda phobl ifanc ag anableddau dysgu mewn golwg a'i ddylunio i gyd-fynd ag uned Lefel Mynediad Agored Cyfranogiad Pobl Ifanc – Bod â llais. Digwyddodd y sesiwn hyfforddiant gyntaf yn Abertawe ym mis Chwefror 2014 a chwblhaodd deg o bobl ifanc yr uned yn llwyddiannus.

Ariannwyd gweithgareddau eleni gan Sefydliad Banc Lloyds ac rydym yn ddiolchgar iddyn nhw am ddarparu'r adnoddau ariannol a adawodd i T4R barhau i weithio gyda phobl ifanc anabl ledled Cymru.

LLOYDS BANK FOUNDATION England & Wales

# Llywodraethiant

**Bwrdd yr Ymddiriedolwyr**

TBwrdd yr Ymddiriedolwyr sy'n delio gyda chyllid a llywodraethiant y sefydliad, ac mae'n cynnwys hyd at 12 o aelodau. Etholir 9 o'r aelodau hyn, ac mae tri arall yn cael eu penodi. Mae'r ymddiriedolwyr yn gwasanaethu am uchafswm o ddau dymor o dair blynedd, a gellir naill ai eu hailethol neu eu hailbenodi ar ddiwedd eu tymor cyntaf o wasanaeth. Aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn ystod 2012/13 oedd:

- John Valentine Williams OBE (Cadeirydd)
- Stuart Chapman (Trysorydd)
- Roger Bishop
- Rebekah Burns, Cardiff Women's Aid (gadawodd 9.10.13)
- Diane Daniel (Is-gadeirydd)
- Dr Iolo Doull, Royal College of Paediatrics & Child Health in Wales
- Mike Greenaway, Play Wales
- Philip Hodgson MBE (gadawodd 12.3.14)
- Yvonne Rodgers, Barnardo's Cymru
- Emily Warren
- Professor Jonathan Scourfield, Cardiff School of Social Sciences (o 9.10.13)
- Hannah Williams, Ty Hafan (o 9.10.13)
- Carol Daniel, Rhondda Cynon Taff County Borough Council (o 9.10.13)
- Dr Dave Williams, Aneurin Bevan University Health Board (o 3.12.13)

## Y Cyngor Polisi

Mae gan Plant yng Nghymru Gyngor Polisi sy'n cyflwyno argymhellion ar faterion polisi plant a phobl ifanc i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, ond nid oes iddo swyddogaeth llywodraethiant. Mae'r Cyngor Polisi yn cynnwys 10 aelod rhag-etholedig o gyrff allweddol, gyda hyd at 21 o lefydd eraill yn cael eu hethol o blith yr aelodau. Mae 12 Ymddiriedolwr Plant yng Nghymru hefyd yn dod yn aelodau yn awtomatig. Aelodau'r Cyngor Polisi yn ystod 2012/13 oedd:

### Y Corff Cynrychioliadol (penodedig, hyd at 10 o aelodau)


ADEW (a gynrychiolir gan, WLGA)
Y Ddraig Ffynci (a gynrychiolir gan Darren Bird)
Iechyd Cyhoeddus Cymru (a gynrychiolir gan Rachel Shaw)
Coleg Brenhinol Paediatreg ac Iechyd Plant yng Nghymru (a gynrychiolir gan Dr Nia John)
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (a gynrychiolir gan Joanna Davies)
Cydffederasiwn y GIG
ACPO
ADSS (a gynrychiolir gan Leighton Rees, Cyngor Bwrdeistref Sirol Dinbych)

### Aelodau Etholedig

Dr Susan Evans, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Keith Ingham, Relate Cymru
Wendy Hawkins, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs (tan Chwefror 2014)
Deborah Jones, Lleisiau o Ofal (Cymru)
Yr Athro Alison Kemp, Adran Iechyd Plant, Prifysgol Caerdydd
Des Mannion, NSPCC Cymru
Jan Leightley, Action for Children Gweithredu dros Blant
Cherrie Taylor, Bwrdd Cyfrifoldeb Cymdeithasol Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu
Dr Elspeth Webb, Ysbyty Athrofaol Cymru
Christine Walby
Jane Tremlett, Cyngor Sir Caerfyrddin
David Egan (o Fedi 2013)
Mo Sykes, YMCA Cymru (o Fedi 2013)
Chris Elmore, Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (o Fedi 2013)
Helen Mary Jones, Ieuenctid Cymru (o Chwefror 2014)

### Arsylwyr

CAFCASS Cymru
Llywodraeth Cymru
Comisiynydd Plant Cymru
Y Gronfa Loteri Fawr
Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid



# Aelodau Plant yng Nghymru

Yn ystod 2013/14 roedd gan Plant yng Nghymru gyfanswm o 271 o aelodau, yr oedd 202 ohonynt yn aelodau sefydliadol a 42 yn unigolion. Ymunodd 27 o unigolion ychwanegol, sy'n gweithio i sefydliadau sydd eisoes yn aelodau, hefyd fel aelodau atodol.

**Sefydliadau**

Bwrdd Iechyd Athrofaol Abertawe Bro Morgannwg
Gweithredu dros Blant
AFASIC Cymru
Canolfan Gymunedol Affricanaidd
Amgueddfa Cymru – National Museum Wales
Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan
Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan - Dechrau'n Deg
Cyngor Ynys Môn - Dechrau'n Deg
Arad Consulting
ASH Cymru (Gweithredu ar Ysmygu ac Iechyd yng Nghymru)
Cymdeithas Cyrff Gwirfoddol yn Wrecsam
Atal y Fro
Prifysgol Bangor
Barnardo's Cymru
BAWSO Cyf
Plant mewn Angen BBC
Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent - FIS
Canolfan Therapi Plant Bobath
Booktrust
Cymdeithas Cyrff Gwirfoddol Pen-y-bont (BAVO)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont
Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain (BAAF) Cymru
Gofal Bryn Melyn Cyf
BulliesOut
Buttle UK
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Rhwydwaith Rhieni Caerffili
CAFCASS Cymru
Fforwm Blynyddoedd Cynnar Parc Caia
Canolfan Plant Jig-So
Canolfan Plant
CAPIC (Collaboration for Accident Prevention Injury Control)
Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro
Coleg Caerdydd a'r Fro
Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Bwrdd Iechyd Cyngor Caerdydd
Prifysgol Metropolitan Caerdydd – Gwasanaethau Myfyrwyr
Cyngor Trydydd Sector Caerdydd (C3SC)
Prifysgol Caerdydd - Adran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
Prifysgol Caerdydd – Adran Gwaith Cymdeithasol
Cymorth i Fenywod Caerdydd
Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Caerdydd
Rhwydwaith Cyd-drefnu Gofal Cymru
Gofal i'r Teulu
Ymddiriedolaeth Gofalwyr
Cyngor Sir Caerfyrddin
Pobl yn Gyntaf Sir Caerfyrddin
Cymdeithas Ieuenctid a Phlant Sir Caerfyrddin (CYCA)
CaST Cymru
CCPAS
Cyngor Sir Ceredigion
Changing Faces
Ymddiriedolaeth Ymyrraeth Gynnar Plant
Chroma
Cyngor ar Bopeth Cymru
Dinas a Sir Abertawe – Uned datblygu'r Blynyddoedd Cynnar
Dinas a Sir Abertawe – Uned Datblygu a Hyfforddi Staff
Dinas a Sir Abertawe - Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
Coleg Cambria
Coleg y Cymoedd – Ysgol i Ofalwyr
Contact a Family Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - Dechrau'n Deg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - Teuluoedd Gwledig yn Gyntaf
Ysgol Gynradd Coryton
Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru (CWVYS)
Gofal Profedigaeth Cruse Cymru
Canolfan Plant Integredig Cwm Golau
Canolfan Pobl Ifanc Cwmbrân
Cylch Meithrin Ynysybwl
Cymdeithas Tai Clwyd
Cyngor Gwynedd Council
Dangerpoint
Y Ddraig Ffynci/Funky Dragon
DECIPHer, Prifysgol Caerdydd
Cyngor Sir Dinbych
Cyngor Sir Dinbych - Dechrau'n Deg
Cyngor Sir Dinbych - Canolfan Oaktree
DEWIS Cyf
Darganfod Gwirfoddoli Myfyrwyr Abertawe
Dyfodol Powys Futures
Dynamix Cyf
ECF Hyfforddiant
Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig
Families Need Fathers Cymru
Y Gronfa Teuluoedd
Family Matters Mediation Cyf
First Campus
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Sir y Fflint - Gwasanaeth Meithrinfeydd Sir y Fflint
Rhwydwaith Maethu Cymru
FPA
GISDA
Coleg Gŵyr Abertawe
GroBrain
Cymdeithas Cyrff Gwirfoddol Gwent
Gwerin y Coed/The Woodcraft Folk in Wales
Hafal
Hafan Cymru
Canolfan Plant Integredig Calon y Cymoedd
HMP & YOI Parc – Gwasanaethau Cadw a Dal
Home Start
Bwrdd Iechyd Hywel Dda
Iaith Cyf / TWF
Gofal Plant Landsker
Anabledd Dysgu Cymru
Llamau Cyf
Cymorth i Fenywod Llanelli
Canolfan Plant Llwynhendy
Mantell Gwynedd
MENCAP Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol

Merthyr Tudful

Mirus Cymru
Cyngor Sir Mynwy
Cyngor Sir Mynwy – Canolfan Plant Integredig Acorn
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru
Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar
Gweithredu Ynni Cenedlaethol Cymru
Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Addysgol
Gwasanaeth Cenedlaethol Eiriolaeth Plant
Uned Hawliau Plant Castell-nedd Port Talbot
Coleg Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot - Dechrau'n Deg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot – Swyddog Hyfforddiant & Datblygiad
Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Dinas Casnewydd
NSPCC
Pathway Care
Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
Cyngor Sir Penfro
Ysgol Gymunedol Pennar
Ysgol Gynradd Gymunedol Pen-y-garn
Uned Pobl a Gwaith
Plant Dewi
Chwarae Cymru
Gwasanaeth Gofalwyr Powys
Cyngor Sir Powys
Practice Solutions
ProMo-Cymru
Prospects for Young People
PTA UK
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyngor Hil Cymru
RAY Ceredigion
Relate Cymru
Remploy Cyf
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Right From The Start (Caerffili)
RNIB Cymru
Coleg Brenhinol Paediatreg ac Iechyd Plant
Ysgol Baratoadol Rydal Penrhos
Achub y Plant
Scope Cymru
SENSE Cymru
SNAP Cymru
Solas Cymru
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Sova Cymru/Cymru
Spark Blaenymaes Cyf
Ysgol Babanod St Andrew
Cymdeithas Plant Dewi Sant
Bwrdd Cyfrifoldeb Cymdeithasol Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu
TACT Cymru
Cymdeithas Tai Taf
Sefydliad Beth Johnson
The Place2Be
The Venture
Meithrinfa Toadhall Montessori
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen - Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen - FIS
Cynghrair Wirfoddol Torfaen
Touch Trust Cyf
Ysgol a Chanolfan Adnoddau Ysgol Trinity Fields
Tros Gynnal Plant
Tŷ Hafan
Canolfan Teuluoedd Tŷ Hapus
UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)
UNICEF UK
Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig
Synod Cenedlaethol Cymru
Prifysgol De Cymru – Cyfadran Gwyddorau Bywyd ac Addysg
Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant - Addysg Plentyndod Cynnar
Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant – Cyfiawnder a Chynhwysiant Cymdeithasol
Cyngor Bro Morgannwg – Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc
Cyngor Bro Morgannwg – Dechrau'n Deg
Lleisiau o Ofal (Cymru)
Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cyngor Ffoaduriaid Cymru
Cymorth i Fenywod Cymru
Whizz Kidz
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Y Bont
Y Bont - Cartref Bontnewydd
YMCA Cymru
Ynyscynon Early Years Centre
Ysgol Gyfun Gwynllyw
Ysgol Gymraeg Cwmbrân
Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd
Ysgol Syr Thomas Jones
Ysgol y Frenni

**Aelodau Unigol**

AAnn Sherlock
Ann Bell
Heidi Falconer
Paul Hopkins QC
Elinor Lloyd
Elvet Crowe
Pat Smail
Kerry Kane
Lindy Duncalf
Martin Price
Kerry Marlow
Jan Berry
Lesley Conran
Monica Carroll
Pauline Galluccio
Felicity Fletcher
Prof Nigel Thomas
Lucy Hodson
Angela Atherton
Dr Anne Crowley
Dr Mike Shooter
Tim Brown
Stuart Chapman
Philip Hodgson
Ann Williams
Cllr Christine Walby OBE
Clare Lucignoli
Diane Daniel
Elaine Hepp
Prof Jo Sibert
Prof June Statham
James Mulenga
Jan Owen
John Llewellyn Thomas
John Valentine Williams OBE
Lesley Parratt
Louise Jones
Margaret Hanney MBE
Mary Anne Marsden
Merfyn Roberts
Richard Hibbs
Dr Ruth Parry
Ms Sara Reid


# Crynodeb ariannol

| ADNODDAU I MEWN | |
|---|---|
| Grant Craidd Llywodraeth | £558,530 |
| Rhoddion | £2,081 |
| Incwm Buddsoddiadau | £10,999 |
| Cymorthdaliadau Grantiau | £112,940 |
| Tanysgrifiadau Aelodaeth | £34,325 |
| Gweithgareddau ar gyfer Cynhyrchu Cyllid | £409,093 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau i mewn** | **£1,127,968** |

| ADNODDAU A WARIWYD | |
|---|---|
| *Cost cynhyrchu cyllid* | |
| Gwasanaethau Cynnal ac Aelodaeth | £163,771 |
| Gwariant elusennol uniongyrchol | £952,768 |
| Costau Llywodraethiant | £14,093 |
| Cyllid Pensiwn | £13,000 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau a Wariwyd** | **£1,143,632** |
| Incwm Net ar gyfer y flwyddyn | **-£15,664** |

| DADANSODDIAD O'R GWARIANT ELUSENNOL FESUL AMCAN | |
|---|---|
| Dylanwadu'n Effeithiol ar bolisi, arfer ac ymch-wil | £292,743 |
| Gweithlu Mwy Cysylltiedig | £123,700 |
| Gweithlu mwy gwybodus | £348,103 |
| Gwell Ymgynghori a Chynrychiolaeth | £197,746 |
| Cost Generadu Incwm | £167,215 |
| Llywodraethiant | £14,125 |
| **Cyfanswm Adnoddau a Ddefnyddiwyd** | **£1,143,632** |

**Adnoddau i mewn**




**Dadansoddiad o'r gwariant elusennol fesul amcan**

